

## Pwyllgor Diwylliant - CC-3-02(p5)

**Dyddiad:** 23 Ionawr 2002

**Amser:** 9.15-12.45pm

**Lleoliad:** Canolfan Gelfyddydau'r Miwni, Pontypridd

### 1. CEFNDIR

#### 1.1 Cyfieithu yng Nghymru Heddiw

Yn ystod y deng mlynedd ar hugain diwethaf y datblygodd cyfieithu proffesiynol Cymraeg/ Saesneg yng Nghymru a hynny yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1967. Buan wedi i'r ddeddf honno ddod i rym gwelwyd penodi cyfieithydd llawn-amser yn y Swyddfa Gymreig. Gydag ad-drefnu llywodraeth leol yn 1974 y gwelwyd y camau nesaf wrth i Gynghorau Aberconwy, Caerfyrddin a Gwynedd sefydlu swyddi cyfieithu. Yng Ngwynedd y sefydlwyd Uned Gyfieithu gan gyfieithu nid yn unig dogfennau a chofnodion swyddogol ond hefyd drafodaethau'r Cyngor yn ei wahanol bwyllgorau drwy wasanaeth cyfieithu ar y pryd. Yno y datblygodd cyfieithu ar y pryd ac yr oedd hynny yn sicrhau nid yn unig cydraddoldeb i'r Gymraeg yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 ond hefyd yn gyfrwng i'r Cyngor gyfathrebu'n effeithiol â'r gymuned yr oedd yn ei gwasanaethu.

#### 1.2 Sefydlu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Yn fuan teimlwyd bod angen i gyfieithwyr y Swyddfa Gymreig a'r Cynghorau lleol gyfarfod i gytuno ar dermau a ddefnyddid yn gyffredin. Y cyfarfodydd hyn, ar anogaeth y Swyddfa Gymreig, a arweiniodd at sefydlu **Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru** ym Hydref 1976. Ym mis Tachwedd 2001 bu'r Gymdeithas yn dathlu pen ei blwydd yn chwarter canrif a phriodol iawn oedd defnyddio'r achlysur hwnnw i anrhydeddu dau gymwynaswr mwyaf cyfieithwyr yng Nghymru, sef Bruce Griffiths a Dafydd Glyn Jones, golygyddion **Geiriadur yr Academi**. Hyd oni sefydlwyd canolfan safoni termau Saesneg – Cymraeg swyddogol yng Nghymru y geiriadur hwn fu'r caffaeliad mwyaf i gyfieithwyr.

Parhau i gynyddu a wnaeth y galw am gyfieithu ac erbyn 1985 yr oedd rhyw 56 yn cyfieithu yn llawn-amser neu'n rhan-amser. Yr oedd y mwyafrif llethol ohonynt yn aelodau o **Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru** ac yn mynychu ei chynadleddau blynyddol yn trafod problemau byd cyfieithu ac yn cynnal sesiynau bathu termau dan arweiniad Bruce Griffiths.

Yn ail hanner yr wythdegau gwelwyd cynnydd aruthrol yn y galw am gyfieithwyr a chwmnïau cyfieithu masnachol yn dechrau ymsefydlu. Fel y dywedodd yr Arglwydd Gwilym Prys Davies yn ei adroddiad yn 1996 y mae:

"... cyfieithu yn ddiwydiant yng Nghymru sydd yn datblygu ar garlam heb unrhyw reolaeth arno o gwbl. Mae'n agored i unrhyw un sefydlu busnes ar ei liwt ei hun i gynnig gwasanaeth cyfieithu am dâl heb fod ganddo unrhyw gymhwyster cydnabyddedig i wneud y gwaith."

*Panel Cymraeg Swyddogol: Adroddiad. (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1996)*

### 1.3 Datblygiad Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Yr unig ymgais i geisio strwythuro'r maes fu gweithgarwch y Gymdeithas wrth sefydlu trefn asesu ac arholi, cyhoeddi cyfeirlyfr o gyfieithwyr cydnabyddedig ar sail hynny a threfnu gweithdai a fforymau trafod. Ym 1989 cyflwynodd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru system asesu ymgeiswyr am aelodaeth Sylfaenol neu Gyflawn ohoni.

Gyda'r grant a dderbyniwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg oddi ar 1997 bu modd grymuso'r gwaith hwn. **(Atodiad A)** Datblygodd y Gymdeithas o fod yn asesu rhyw 5 cais y flwyddyn i sefyllfa lle y mae rhyw 50 o ymgeiswyr y flwyddyn yn sefyll ei harholiadau. Fodd bynnag, y mae galw arni o sawl tu i gynyddu ei gweithgarwch yn y maes hwn fel sawl maes arall oherwydd yr angen i gynnal safonau.

Gyda'r twf cyson mewn dwyieithrwydd yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac wedi hynny yn dilyn sefydlu'r Cynulliad, cynyddu a wna'r galw am wasanaethau cyfieithu. Y mae'n bwysig bod strwythurau'r Gymdeithas yn tyfu'n gymesur â'r twf yn y diwydiant ond y mae'n hynny'n amhosib o fewn yr adnoddau a roddir iddi.

Nid yn unig y mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 wedi rhoi cydraddoldeb i'r iaith Gymraeg ond y mae hefyd yn rhoi cydraddoldeb i'r cyfieithiad Cymraeg. Fel yr eglura'r Arglwydd Gwilym Prys Davies:

"O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1967, gallai'r Gweinidog ddatgan, fel y gwnaed mewn llawer iawn o enghreifftiau, pan fyddai achos o anghysondeb yn codi rhwng

fersiwn Saesneg a fersiwn Cymraeg unrhyw ffurflen statudol, mai'r fersiwn Saesneg fyddai'n sefyll. Felly, nid oedd yn ofynnol bod y cyfieithiad Cymraeg yn gysáct o gywir. Ond o ganlyniad i Ddeddf 1993, pan fo anghysondeb rhwng fersiynau, mae'n rhaid ystyried y ddau fersiwn er mwyn penderfynu ystyr y testun. Felly bydd sicrhau cywirdeb cyfieithiadau yn bwysicach nag erioed. Bydd yn ofynnol iddynt fod yn gywir i drwch y blewyn oherwydd, os bydd anghysondeb rhyngddynt, dim ond y llys yn y pen draw a all benderfynu beth yw ystyr y testun."

*Y Panel Cymraeg Swyddogol: Adroddiad. (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 1996)*

Un o argymhellion yr Adroddiad hwnnw yn sgil gofynion newydd y Ddeddf oedd sefydlu "corff parhaol i fathu termau ac i safoni terminoleg Gymraeg at ddibenion dogfennau swyddogol". Yn anffodus, ni ddarparwyd yr adnoddau i sefydlu canolfan genedlaethol o'r fath.

## **1.4 DATBLYGU HYFFORDDIANT**

Un agwedd yn unig ar waith cyfieithydd yw defnyddio termau'n gywir. Y mae gwir angen datblygu cyfieithwyr medrus i gwrdd â gofynion cyfieithu ar y lefel weinyddol a chyfreithiol. Y mae cyfieithwyr profiadol yn brin fel y gwelodd y Cynulliad ei hun wrth geisio recriwtio ar gyfer y Gwasanaeth Cyfieithu, a phrinnach byth yw'r rhai a all gyflwyno hyfforddiant strwythuredig i gyfieithwyr y dyfodol. Nid yw hyfforddi cyfieithwyr wedi cael ystyriaeth ddifrifol hyd yma gan unrhyw gorff sydd yn medru darparu'r adnoddau i wneud hynny. Cyflwynna gwahanol golegau Prifysgol Cymru gyrsiau cyfieithu dogfennau, cyrsiau cyfieithu ar y pryd a chyrsiau is-deitlo ond nid oes hyd yma strwythur hyfforddi ar gyfer datblygiad proffesiynol cyfieithwyr.

Ceir prinder cyfieithwyr ar y pryd am na ellir datblygu'r sgiliau hynny oni bo cyfieithydd yn gweithio i gorff cyhoeddus sydd yn cynnig y gwasanaeth ac yn barod i feithrin ei gyfieithwyr cyflogedig. Y mae'n anodd iawn i gyfieithydd ar ei liwt ei hun ddatblygu'r sgil hwn.

## **1.5 CORFF SAFONI CYFIEITHU**

Bellach y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cymeradwyo oddeutu 200 o Gynlluniau Iaith ac y mae cyflawni llawer o dargedau y cynlluniau hynny yn golygu defnyddio gwasanaethau cyfieithwyr. Nid oes cyfieithwyr profiadol nag arbenigaeth ar gyfieithu ymhlith aelodau cyflogedig y Bwrdd. Pwysicach na hynny yw'r ffaith nad oes corff ar gael i fonitro safon y gwasanaethau cyfieithu hynny a thystia nifer y cwynion am gyfieithu ysgrifenedig fod gwir angen corff o'r fath. Gallai'r Gymdeithas fanteisio ar arbenigedd ei haelodau i gynnig gwasanaeth ymgynghorol yn y maes hwn.

## **1.6 DATBLYGU CYFIEITHU MASNACHOL**

Dibynna llawer o gyrff cyhoeddus ar y sector fasnachol am wasanaeth cyfieithu. Cyfieithwyr ar

eu liwt eu hunain yw llawer o'r cyfieithwyr masnachol gan nad oes ond pedwar cwmni yng Nghymru gyfan sy'n cyflogi mwy na rhyw 8 o gyfieithwyr yr un. Canlyniad hyn yw bod llawer o waith cyfieithu yn mynd allan o Gymru i asiantaethau cyfieithu sydd wedi hynny yn rhannu'r gwaith rhwng cyfieithwyr yng Nghymru ac yn cadw canran sylweddol o'r tâl heb fod ganddynt unrhyw arbenigedd o gwbl yn y maes. Y mae angen ymchwilio i'r agwedd hon ar y diwydiant cyfieithu. Gallai'r Gymdeithas, o gael adnoddau helaethach a marchnata gwasanaethau ei haelodau yn well, oleuo darpar gwsmeriaid ynglŷn â hyn.

## 1.7 DATBLYGU TECHNOLEG GWYBODAETH AR GYFER CYFIEITHU

Ymateb i wahanol anghenion yn *ad hoc* a wnaed hyd yma wrth ddatblygu technoleg gwybodaeth. Er i Fwrdd yr Iaith Gymraeg drwy Ganolfan Bedwyr a'r Ganolfan Safoni Termau ddatblygu adnoddau cwbl allweddol fel **CySill a CysGair** ac er eu bod wrthi'n datblygu project i osod **Geiriadur yr Academi** ar gyfrifiadur a phroject cyfieithu â pheiriant, mae angen edrych ar y maes yn ei gyfanrwydd cyn mentro ymhellach. Er enghraifft, dylid ystyried yn greadigol sut y gellid manteisio ar ddatblygiadau cyfrifiadurol megis technoleg adnabod llais i hwyluso a gwella ansawdd cyfieithu dogfennau. Yr un modd, gellid datblygu systemau fideogynadleda i ymestyn gwasanaethau cyfieithu ar y pryd. Gallai datblygiad o'r fath fod yn allweddol wrth geisio datblygu gwasanaethau cyfieithu ar gyfer y gymuned.

## 1.8 STRATEGAETH AR GYFER CYFIEITHU

Bu **Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru** yn galw ers tro am ddatblygu strategaeth ar gyfer cyfieithu yng Nghymru. Y mae cyfraniad cyfieithu at dwf dwyieithrwydd yn allweddol. Heb wasanaethau cyfieithu ni fyddai'r Gymraeg wedi ennill ei lle mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ac ni fyddid wedi gweld y twf aruthrol a ddigwyddodd ym maes addysg ddwyieithog. Bellach y mae gofyn gwneud astudiaeth systematig o gyfraniad cyfieithu at gryfhau'r iaith Gymraeg a chynnal dwyieithrwydd.

Cytunodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fis Hydref 2000 fod angen strategaeth ar gyfer cyfieithu a diffinio swyddogaeth **Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru** o fewn y strategaeth honno. Amgaeir amlinelliad o'r hyn yr hoffai'r Gymdeithas ei weld yn datblygu o fewn y strategaeth honno. **(Atodiad B)**

## 2. ADOLYGIAD Y PWYLLGOR DIWYLLIANT O'R IAITH GYMRAEG

Gall cyfieithu gyfrannu at bob un o'r gwahanol themâu a nodwyd yn eich adolygiad.

## 2.1 teuluoedd a Chymunedau

Y mae cyfieithu yn allweddol i ddatblygu cynlluniau iaith corfforaethol yn ogystal ag i rymuso cymunedau. Cyfeiriwyd uchod at gyfraniad cyfieithu i gynlluniau iaith. (**Gweler 1.5**) Gwelodd **Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru** drwy gynllun peilot ar y cyd rhyngddi a Menter Môn fel y gall cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r sector wirfoddol sicrhau bod y siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg yn medru cymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol a chydweithio er hyrwyddo buddiannau'r gymuned honno. O fewn deuddeng mis i gynnig y gwasanaeth cynyddodd y galw ymhlith Cynghorau Cymuned o 4 i 12. Sylw Cadeirydd di-Gymraeg un cyngor tref lle bu rhwystredigaeth oherwydd na fedrai'r aelodau gyfrannu at y drafodaeth yn rhwydd yn eu hiaith eu hunain oedd bod cyfieithu wedi gwella democratiaeth.

Byddai'n dda adeiladu ar sail cynllun peilot o'r fath i gydweithio â'r Cynghorau Unedol a Chynghorau Sirol y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol a datblygu Cynllun Cyfieithu Cymunedol. Gallai cynllun o'r fath gynnwys agweddau eraill ar ddatblygu defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, e.e. cyrsiau gloywi Cymraeg, cyrsiau cyfieithu ar y pryd.

## 2.2 Datblygu Cymunedol

Y mae cyfieithu yn un o'r diwydiannau cartref hynny sydd ar gynydd. Y mae angen datblygu mentergarwch ymhlith y cwmnïau hyn drwy ddatblygu a chynnig hyfforddiant mewn rhedeg busnes a sgiliau technoleg gwybodaeth. Hefyd fel y crybwyllwyd uchod y mae angen rhwydweithio'r cwmnïau hyn er mwyn cynyddu eu cynnyrch a chreu swyddi.

## 2.3 Hybu Dwyieithrwydd a Chynnal Consensws Cenedlaethol ac Ewyllys Da

Y mae sicrhau gwasanaethau cyfieithu safonol yn hollbwysig ar bob tu i hybu ewyllys da at y Gymraeg. Y mae angen llawer iawn o weithgarwch i godi ymwybyddiaeth ar bob llaw i sicrhau bod pobl yn sylweddoli cyfraniad dwyieithrwydd i hyrwyddo cymdeithas ddemocrataidd, atebol a mentrus. Unwaith y sicrheir yr ewyllys da hwnnw y mae i **Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru** swyddogaeth allweddol o ran sicrhau bod unrhyw wasanaeth cyfieithu a gynigir yn wasanaeth o safon.

## 2.4 Buddsoddi Cyhoeddus a Strwythurau Cyflenwi

Yn ystod y pedair blynedd y bu **Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru** yn derbyn grantiau gan Fwrdd yr Iaith datblygodd ei gweithgarwch a chynyddodd ei haelodaeth. Cytunodd y Bwrdd â ni bellach fod angen datblygu strategaeth ar gyfer datblygu'r maes cyfieithu. Bu cyfraniad cyfieithu i dwf dwyieithrwydd yng Nghymru yn gwbl unigryw ond y mae angen inni bellach gymryd golwg gwrthrychol a dadansoddi amodau'r cyfraniad hwnnw er mwyn datblygu dulliau o ddefnyddio cyfieithu i gryfhau safle'r Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd. (**Atodiad B**)

Cyn dechrau derbyn grant Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ôl ym 1997 roedd y Gymdeithas yn llwyr ddibynnol yn ariannol ar y tâl aelodaeth a godai ac roedd ei holl weithgarwch yn weithgarwch gwirfoddol ar ran ei haelodau.

Ers 1997 y mae ei grant cyntaf gan Fwrdd yr Iaith wedi cynyddu fel a ganlyn:

**1997 – 1998 Grant Craidd - £9,170:**

Ffi Swyddog Gweinyddol + offer swyddfa

**Grant Project - £5,500:**

Datblygu systemau gweinyddol y  
Gymdeithas a rhedeg sesiynau cyflwyno  
Cyfieithu ar y Pryd

**1998 – 1999 Grant Craidd – £9,170:**

Ffi Swyddog Gweinyddol + gweithgareddau

**Grant Project - £4,500:**

Datblygu cwrs cyflwyno Cyfieithu ar y Pryd

**1999 - 2000 Grant Craidd - £29,355:**

Cyflogi Swyddog Gweinyddol amser-llawn

Swyddog datblygu rhan-amser

**2000 – 2001 Grant Craidd - £44,764**

Cyflogi Swyddog Gweinyddol amser-llawn

Cyfarwyddwr rhan-amser

**2001 – 2002 Grant Craidd - £55,000**

Cyflogi Swyddog Gweinyddol amser-llawn

Cyflogi Cyfarwyddwr rhan-amser

**Codwyd y tâl aelodaeth o £10 i £40 rhwng 1997 a 2001.**

**Tâl Aelodaeth ar hyn o bryd:**

**£100 i Aelodau Cyflawn**

**£60 i Aelodau Sylfaenol**

**£40 i Gyfeillion**

Datblygodd y Gymdeithas dros y tair blynedd a hanner diwethaf o fod yn Gymdeithas gyda thri neu bedwar swyddog gweithgar i fod yn Gymdeithas sydd/ sydd â:

A Yn cyflogi Swyddog Gweinyddol llawn-amser

Yn cyflogi Cyfarwyddwr rhan-amser

B Pwyllgor Llywio Cenedlaethol – 10 aelod yn cynrychioli gwahanol feysydd y byd cyfieithu

C Bwrdd Arholi/Asesu – 10 aelod

Ch Panel Asesu Cyfieithu ar y Pryd – 6 aelod

D Yn gweinyddu trefn arholi ar gyfer Aelodaeth Sylfaenol

Dd Yn gweinyddu trefn asesu ar gyfer Aelodaeth Gyflawn

E Yn datblygu trefn asesu ar gyfer Cyfieithu ar y Pryd

F Yn datblygu Hyfforddi Cyfieithu ar y Pryd ar y cyd ag Adran Dysgu Gydol Oes Prifysgol Cymru Bangor

Ff Yn cynnal 2 gynhadledd genedlaethol y flwyddyn

G Yn cynnal 10 gweithdy y flwyddyn



**1997: 74 o Aelodau a Chyfeillion**

**1999: 113 o Aelodau a Chyfeillion**

66 ar gael ar gyfer gwaith masnachol

22 heb fod ar gael ar gyfer gwaith masnachol

26 Cyfaill

**2000: 130 o Aelodau a Chyfeillion**

80 ar gael ar gyfer gwaith masnachol

30 heb fod ar gael ar gyfer gwaith masnachol

20 Cyfaill

**2001: 142 o Aelodau a Chyfeillion\***

107 ar gael ar gyfer gwaith masnachol

20 heb fod ar gael ar gyfer gwaith masnachol

15 Cyfaill

**CYNNYDD YN Y DREFN ASESU**

1989 – 1997: Asesu 26

1997 – 1999: Asesu 23

1999 – 2000: 31 yn sefyll arholiad, asesu 1

2000. - 2001: 40 yn sefyll arholiad, asesu 2

2001. - 2002: 43 yn sefyll arholiad, asesu 2

## **ATODIAD B**

### **AMCANION**

**A Casglu Gwybodaeth am sefyllfa cyfieithu Cymraeg – Saesneg/  
Saesneg – Cymraeg**

**B Hybu Safonau Cyfieithu Proffesiynol yng Nghymru**

**C Diffinio swyddogaeth bosibl i Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fel Corff Safoni Cyfieithu**

# CH Diffinio Cyfraniad Posibl Cyfieithu o fewn Strategaeth Iaith gyffredinol Bwrdd yr Iaith Gymraeg

D Diffinio'r bartneriaeth rhwng Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a Bwrdd yr Iaith

## Gymraeg

### A Casglu Gwybodaeth AM Y SEFYLLFA BRESENNOL:

1 Ymgynghori ag Adrannau a Chwmnïau Cyfieithu

2 Ymgynghori â sefydliadau allweddol:

- Y Cynulliad
- Y Llysoedd
- Syniad

3 Comisiynu arolwg o'r maes er mwyn canfod:

3.1 Faint sy'n gweithio fel cyfieithwyr ac ym mha faes:

- cyfieithu testunau
- cyfieithu ar y pryd
- cyfieithu is-deitlau

3.2 Faint sy'n cyfieithu :

- fel cyfieithwyr ar eu liwt eu hunain
- fel aelodau o gwmnïau cyfieithu
- fel aelodau cyflogedig o sefydliadau

3.3 Y galw am wahanol wasanaethau cyfieithu

- Cyfieithu ar y pryd i'r Saesneg
- Cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg
- Cyfieithu testunau i'r Gymraeg
- Cyfieithu testunau i'r Saesneg
- Cyfieithu i ieithoedd eraill
- Cyfieithu is-deitlau ar gyfer y cyfryngau

- Cyfieithu ar gyfer y Llysoedd
- Cyfieithu HTML
- Faint o'r gwaith a ddaw o dros y ffin?

### **3.4 Pa sefydliadau yng Nghymru sy'n ceisio gwasanaeth**

**cyfieithu drwy gysylltu ag asiantaethau yn Lloegr a pham y gwneir hynny?**

**4** Comisiynu astudiaeth o gyfieithu fel cyfrwng cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, normaleiddio'r Gymraeg ac atgyfnerthu'r Gymraeg fel iaith gymunedol

**5** Comisiynu astudiaeth o gyfraniad cyfieithu mewn strategaethau cynllunio iaith llwyddiannus mewn gwledydd sy'n hybu dwyieithrwydd

## **B HYBU Safonau CYFIEITHU PROFFESIYNOL YNG NGHYMRU**

### **1. Asesu a Hyfforddi**

1.1 Asesu a Chymeradwyo Cyfieithwyr sydd am ymarfer

1.2 Cyhoeddi rhestr swyddogol o gyfieithwyr testunau a chyfieithwyr ar y pryd

1.3 Datblygu cynllun hyfforddiant strwythuredig ar gyfer datblygiad proffesiynol cyfieithwyr

1.4 Datblygu ac Achredu Cyrsiau Cyfieithu ochr yn ochr â

Cholegau Addysg Uwch ac Addysg Bellach a hefyd

Awdurdodau Lleol, Y Cynulliad a'r Gwasanaeth Llys

e.e. Cwrs Tystysgrif Ymarfer Cyfieithu llawn-amser ar

batrwm Cwrs Tystysgrif Ymarfer Dysgu lle byddai'r myfyrwyr yn cael profiad uniongyrchol drwy eu lleoli ar brofiad gwaith mewn Awdurdodau Lleol ac yn y

## Cynulliad

1.5 Datblygu modylau cyfieithu fel rhan o Gyrsiau ar Ddwyieithrwydd ar gyfer Hyrwyddwyr Iaith a

Swyddogion Iaith

1.6 Buddsoddi mewn Datblygu Adnoddau Hyfforddi

(cymh. Y twf mewn adnoddau dysgu Cymraeg fel ail iaith a gafwyd dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf)

1.7 Datblygu rhaglen hyfforddi i greu cronfa o hyfforddwyr a fyddai â phrofiad o gyfieithu proffesiynol i redeg y cyrsiau cyfieithu

1.8 Datblygu Cynlluniau Mentora

## **2 Gwella Adnoddau ar gyfer Cyfieithwyr**

2.1 Cyllid i greu fersiwn Cymraeg - Saesneg o Eiriadur yr Academi

2.2 Datblygu canolfan genedlaethol gydag adnoddau digonol ar gyfer bathu a safoni termau

2.3 Datblygu Corff Safoni Cyfieithu Proffesiynol

2.4 Datblygu Technoleg Gwybodaeth i greu cronfeydd o gyfieithiadau i'w defnyddio gan awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau iechyd a'r sector wirfoddol etc

### **1. Datblygu Codau Ymarfer i'w defnyddio gan gyfieithwyr a chyflogwyr**

4 Cyhoeddi Canllawiau Arferion Da ar gyfer Cynnal Cyfarfodydd

**Dwyieithog lle defnyddir gwasanaethau cyfieithu ar y pryd**

# C DIFFINIO RÔL CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU FEL CORFF ARHOLI A CHYNNAL SAFONAU CYFIEITHU (ER MWYN CYFLAWNI 1 – 4 UCHOD)

## CH DIFFINIO'R STRATEGAETH AR GYFER CYFIEITHU O FEWN

### **STRATEGAETH EHANGACH Y BWRDD**

#### **1. Ystyried Cyfraniad Cyfieithu**

##### **1.1 Cyfieithu ysgrifenedig**

1.1.1 Normaleiddio'r Gymraeg drwy iddi gael ei gweld mewn

cyhoeddiadau dwyieithog yn ymwneud â phob agwedd ar fywyd

1.1.2 Cyfieithiadau ysgrifenedig yn gallu bod yn enghreifftiau y gall y di-hyder ei Gymraeg ysgrifenedig eu hefelychu wrth geisio drafftio yn Gymraeg

1.1.3 O safbwynt 1.1.1 a 1.1.2 uchod y mae'n bwysig bod y cyfieithiadau yn raenus

1.1.4 Gall fersiynau Cymraeg cofnodion ac adroddiadau pwyllgorau fod yn gaffaeliad er mwyn codi hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd dwyieithog, yn arbennig lle darperir offer cyfieithu ar y pryd

#### **2. Cyfieithu ar y Pryd**

1.2.1 Galluogi cymunedau Cymraeg eu hiaith i barhau i gynnal eu gweithgarwch yn Gymraeg gan y bydd sicrhau gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn darparu cyfieithiad Saesneg ar gyfer y di-Gymraeg

1.2.2 Hybu cyd-ddealltwriaeth a chydweithio rhwng y ddau grwp ieithyddol ac annog cydgyfranogi mewn gweithgarwch cymunedol

1.2.3 Meithrin hyder dysgwyr Cymraeg a rhai siaradwyr Cymraeg di-hyder eraill i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus ac

mewn sefyllfaoedd newydd

Er mwyn sicrhau defnydd adeiladol o wasanaethau cyfieithu ar y pryd bydd rhaid codi ymwybyddiaeth o wir botential y gwasanaeth

**2 Ystyried cyfraniad posibl cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd at gynyddu adnoddau dysgu ar gyfer addysg ddwyieithog**

**D DIFFINIO'R BARTNERIAETH RHWNG CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU A BWRDD YR IAITH GYMRAEG**